

Cefnogi rhieni sydd wedi bod mewn gofal

P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

Mawrth 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDeisebau

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deisebau

Senedd Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **Deisebau@senedd.cymru**

Twitter: **@SeneddDeisebau**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cefnogi rhieni sydd wedi bod mewn gofal

P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

Mawrth 2023



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddDeisebau

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Jack Sargeant AS
Llafur Cymru



Rhys ab Owen AS
Aelod Annibynnol Plaid Cymru



Luke Fletcher AS
Plaid Cymru



Joel James AS
Ceidwadwyr Cymreig



Buffy Williams AS
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn.



James Evans AS
Ceidwadwyr Cymreig



Heledd Fychan AS
Plaid Cymru

Cynnwys

Y Ddeiseb	4
Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion	7
1. Y cefndir.....	8
2. Iaith a chyd-destun	11
Iaith.....	11
Beth yw lleoliad rhiant a phlentyn?.....	11
Rhieni sydd wedi bod mewn gofal.....	12
Casglu a chyhoeddi data.....	13
3. Lleisiau rhieni sydd wedi bod mewn gofal	14
Stigma.....	14
Perthynas â rhieni corfforaethol.....	16
Trawma Emosiynol.....	17
Cymorth.....	18
Diffyg cymorth	18
Beth fyddai'n helpu?.....	19
4. Ymchwil a data	20
5. Darparwyr gwasanaethau - gweithio gyda theuluoedd	23
Risg uwch o ymyrraeth orfodol gan wasanaethau plant?.....	23
Gwasanaethau cymorth pwrpasol ac amserol.....	26
Rhwydweithiau cymorth.....	28
Eiriolaeth.....	29
Heriau awdurdodau lleol	30

Tystiolaeth a chanlyniadau.....	33
6. Casgliadau	36
Atodiad 1: Ymgysylltu gyda rhieni sydd wedi bod mewn gofal	38
Atodiad 2: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar	47
Atodiad 3: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	48

Y Ddeiseb

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys argymhellion a chasgliadau

Dechreuodd yr ymchwiliad hwn gyda'r ddeiseb ganlynol. Cytunodd y Pwyllgor i ehangu ei ymchwiliad er mwyn ystyried taith ehangach rhieni sydd wedi bod mewn gofal.

P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

Credwn fod llawer o'r rheini sy'n gadael gofal yn cerdded allan o'u lleoliadau gan nad oes llawer o ystyriaeth yn cael ei rhoi i'w profiadau blaenorol na'u lles meddyliol er bod gan fabi hawl i aros gyda'i riant/rhieni os yw'n ddiogel gwneud hynny.

Mae llawer o rheini sy'n gadael gofal yn profi ymyrraeth gan wasanaethau cymdeithasol pan fyddant yn rhoi genedigaeth. Mae hyn yn aml oherwydd eu hanes a/neu ddiffyg canllawiau gan eu rhieni eu hunain. Heb os, mae'r rhai sy'n gadael gofal wedi profi trawma yn ystod eu plentyndod ac yn aml yn dioddef o orbryder yn eu bywydau fel oedolion. Yn aml nid ydyn nhw erioed wedi teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi yn ystod eu plentyndod ac mae cael eu lle eu hunain wedi bod yn hafan ddiogel iddynt lle maen nhw'n gallu ymlacio'n llwyr. Ar hyn o bryd, os oes unrhyw bryderon, mae rhiant yn cael ei gludo o'i gartref, ei deulu a'i ffrindiau ac yna'n cael ei roi mewn cartref maeth neu gartref preswyl i'w asesu heb fawr o ystyriaeth i'r hyn sy'n sbarduno'r rhiant, a'i les meddyliol. Credwn fod hyn yn aml yn achosi cyfnod emosiynol dros ben ac yna mae rhieni'n gadael eu lleoliadau gan ddifaru am byth y penderfyniad brys a wnaed mewn eiliad bryderus na fyddai wedi digwydd pe bai'r sefyllfa wedi cael ei thrin â mwy o empathi. Rydym am wybod y ffeithiau i weld a oes angen ateb gwell ar gyfer y rhiant a'r plentyn.

Rhagair y Cadeirydd

Mae dod yn rhiant a chymryd cyfrifoldeb dros lesiant bod dynol arall yn ddigwyddiad enfawr, sy'n newid bywyd. Gall deimlo'n llethol, hyd yn oed o dan yr amgylchiadau mwyaf cadarnhaol.

Wrth ystyried y ddeiseb hon - sy'n ceisio gwella'r modd y caiff data eu casglu er mwyn gwella canlyniadau - roeddem am ddysgu mwy am sut beth yw'r profiad hwnnw i bobl sydd wedi bod mewn gofal yn ystod eu plentyndod eu hunain. Nid oedd y dystiolaeth a gawsom yn hawdd gwrando arni. Clywsom am ragfarn a rhagdybiaeth, a hanesion dirdynnol am unigolion yn ei chael yn anodd adeiladu bywydau gwell iddyn nhw eu hunain a'u hanwyliaid.

Ond clywsom hanesion mwy gobeithiol hefyd: am wasanaethau sy'n darparu'r cymorth sydd ei angen ar bobl; ac unigolion yn goresgyn cryn heriau i ddilyn eu taith fel rhieni.

Fel pwyllgor rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn. Er cymaint rydyn ni'n ceisio gwneud i bobl deimlo'n gartrefol, mae ymddangos gerbron un o bwyllgorau'r Senedd yn gallu bod yn brofiad brawychus a llawn straen. Ond rwy'n arbennig o ddiolchgar i'r rhieni hynny sydd wedi bod mewn gofal a rannodd straeon eithriadol o bersonol, nid i helpu eu hunain; ond fel na fyddai'n rhaid i eraill fynd drwy yr un profiadau.

Yn ystod ein sesiynau darllenais lythyr¹ a ysgrifennwyd gan Jennifer Molloy. Ysgrifennodd.

"I hope through sharing my experience and being involved in this research, I can help bring about a different experience for others.

I hope this is the start of something better."

Ar sail yr hyn a glywsom, rydym yn argymhell cyfres o gamau y gall y Llywodraeth eu cymryd, a chredwn y byddant yn gwneud gwahaniaeth mawr. Rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill yn gallu

¹ Cyhoeddir y llythyr yn llyfr Louise Roberts - The Children of Looked After Children: Outcomes, Experiences and Ensuring Meaningful Support to Young Parents In and Leaving Care, 2021.

gweithredu ar yr hyn a glwysom. Ac y bydd plant yng Nghymru sydd wedi bod mewn gofal yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i ddod yn rhieni y maent yn dyheu i fod.

Os gallwn gyflawni hyn, yna bydd yr ymchwiliad hwn wir yn ddechrau rhywbeth gwell.

A handwritten signature in black ink that reads "Jack Sargeant." The signature is written in a cursive style with a long horizontal stroke extending to the right from the end of the name.

Jack Sargeant

Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru orfodi mabwysiadu a monitro'r gwaith o weithredu'r siarter arfer da rhianta corfforaethol a gynhyrchwyd ar y cyd gan CASCADE a rhieni sydd wedi bod mewn gofal a'r sefydliadau sy'n eu cynorthwyo. Mae pob Pennaeth Gwasanaeth Cymdeithasol wedi mynegi ei cefnogaeth i'r siarter hwn, a byddai'n gam cadarnhaol ymlaen i bob awdurdod lleol a chyrrff cyhoeddus fabwysiadu'r siarter i ddangos eu hymrwymiad i ddarparu cymorth cyfannol i rieni sydd wedi bod mewn gofal.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod data'n cael eu casglu'n rheolaidd mewn perthynas â faint o bobl ifanc mewn gofal neu sydd wedi gadael gofal (hyd at 21 oed) sy'n beichiogi, a faint o'u plant sy'n aros gyda'u rhiant/rhieni, a gaiff eu rhoi mewn gofal maeth neu gydag aelodau o'r teulu neu ei mabwysiadu. Mae dysgu am y canlyniadau i deuluoedd yn bwysig er mwyn llywio ein dealltwriaeth fel y gellir datblygu systemau cefnogi ymhellach a chynllunio gwasanaethau yn unol â hynny. Yn y cyfamser rydym yn croesawu cynnig y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnal arolwg sy'n rhoi cipolwg ar y sefyllfa o ran rhieni sydd â phrofiad o ofal ym mhob awdurdod lleol.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi gwasanaethau aml-asantiaeth ar ffiniau gofal fel Baby and Me, Jig-So a Reflect sy'n gwneud gwahaniaeth o ran cefnogi rhieni sy'n agored i niwed drwy ddulliau sy'n wybodus o drama ac wedi'u seilio ar gryfder. Dylai teuluoedd gael mynediad i wasanaethau o'r fath ble bynnag maent yn byw yng Nghymru

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau deddfwriaeth i sicrhau bod gan bob rhiant sydd wedi bod mewn gofal hawl statudol i wasanaeth cefnogi ataliol, amlap, dwys i gadw teuluoedd efo'i gilydd, pryd bynnag fu eu profiad o ofal. Dylai gynnwys eiriolaeth arbenigol i rieni i'w cynorthwyo i ffendio'i ffordd o amgylch y system ofal cymdeithasol a'r llysoedd teuluol, a'i fodelu ar wasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel Proseict Undod..

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan bob rhiant sydd wedi bod mewn gofal ddarpariaeth addas o ran tai. Mae diffyg tai priodol yn eu cymuned yn cael effaith sylweddol ar gadw teuluoedd gyda'i gilydd.

Argymhelliad 6. Dylai'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fonitro'r cynnydd yn rheolaidd yn erbyn yr Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i wella gofal cymdeithasol plant.

1. Y cefndir

Mae'r bennod hon yn manylu ar hynt y ddeiseb, a gwaith y Pwyllgor o ran ymchwilio i sut i symud y ddeiseb ymlaen.

1. Mae'r ddeiseb yn galw am gasglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn. Mae'r deisebydd yn ofalwr maeth sy'n pryderu am y ffordd y mae rhieni sydd wedi bod mewn gofal yn cael eu cefnogi. Mae'n disgrifio profiad anodd a phoenus mam ifanc a gafodd ei rhoi mewn lleoliad maeth gyda'i baban am asesiad tri mis. Mae'n credu fod y system bresennol yn methu â chydabod y trawma y mae mamau sydd wedi bod mewn gofal wedi'i wynebu a'r pryder a ddaw yn sgil ymyrraeth y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r ddeiseb yn galw ar i'r data gael eu casglu a'u hystyried er mwyn cynyddu dealltwriaeth o'r ffordd orau o gefnogi pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal pan fyddan nhw'n dod yn rhieni.

2. Yn ystod y tro cyntaf i ni ystyried y ddeiseb, ar 16 Gorffennaf 2021 fe wnaethom gytuno i ysgrifennu at Gomisiynydd Plant Cymru. Roedd ei hymateb yn cydnabod yr heriau niferus, gan gynnwys y rôl ddeuol i awdurdodau lleol o ddiogelu baban os oes pryderon wrth gefnogi'r rhiant hefyd. Mae'r Comisiynydd Plant yn datgan bod ymchwil yn dangos bod pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal sy'n dod yn rhieni yn aml yn cael eu gor-gynrychioli mewn achosion gofal ac amddiffyn plant. Mae'r dystiolaeth hefyd yn tynnu sylw at anghenion cymhleth rhieni sydd wedi bod mewn gofal ac ehangder y cymorth y gallai fod ei angen arnynt. Mae'r Comisiynydd Plant yn datgan bod diffyg data a dealltwriaeth o gyfraddau'r ymyrraeth a chanlyniadau i rieni a'u plant yn cyfrannu at ymatebion nad ydynt wedi'u datblygu'n llawn i'r maes pwysig yma o ddarparu gwasanaethau.²

3. Ar sail ei hargymhellion i ofyn am dystiolaeth bellach, yr adborth gan y deisebydd a phapur cwmpasu gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd fe wnaethom gytuno i ehangu cwmpas yr ymchwiliad. Fe wnaethom benderfynu casglu tystiolaeth uniongyrchol gan rieni sydd wedi bod mewn gofal, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi rhieni ifanc a gwahodd academyddion o

² [Gohebiaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru](#), 03 Medi 2021 [Gohebiaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru](#)

CASCADE i gyflwyno canfyddiadau eu hymchwil yn y maes hwn. Diben cael tystiolaeth oedd deall:

- Profiadau pobl ifanc o gael plentyn tra maent mewn gofal eu hunain neu fel rhywun sydd wedi gadael gofal;
- A yw rhieni ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn cael cymorth ac arweiniad ymarferol ac emosiynol o safon;
- Pa wasanaethau a chymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol, y trydydd sector neu eraill ac a ydynt yn diwallu anghenion pobl ifanc ac anghenion eu plant;
- Pa ddata a gaiff eu casglu mewn cysylltiad â phlant mewn gofal neu'r rhai sy'n gadael gofal sy'n cael plant, a data am ymyrraeth amddiffyn plant neu achosion gofal yn ymwneud â'r plant/rhieni.
- Pa ddata fyddai'n ddefnyddiol i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau.

4. Clywsom dystiolaeth lafar gan riant sydd wedi bod mewn gofal, Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant ym Mhrifysgol Caerdydd, Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol (NYAS), Barnardo's, Awdurdodau Lleol a Voices from Care Cymru, gan orffen gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae manylion llawn y dystiolaeth lafar i'w cael yn O.

5. Cafwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan awdurdodau lleol, Voices from Care Cymru, y Prosiect Jig-so a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae manylion llawn y dystiolaeth ysgrifenedig i'w cael yn O.

6. Cyfarfu ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion hefyd â rhieni o bob cwr o Gymru sydd wedi bod mewn gofal, a chlywed yr hyn oedd ganddynt i'w ddweud, wedi'i hwyluso gan y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol. Cyfarfu Aelodau'r Pwyllgor â rhieni sydd wedi bod mewn gofal, a gaiff eu cefnogi gan Voices from Care Cymru. Profiadau'r rhieni sy'n ganolog i'r adroddiad hwn ac mae eu lleisiau'n cael eu hadlewyrchu drwyddi draw. Mae manylion llawn y gwaith ymgysylltu â rhieni sydd wedi bod mewn gofal i'w gweld yn O.

7. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein hymchwiliad, yn enwedig pob rhiant sydd wedi bod mewn gofal a roddodd amser i gyfrannu at yr ymchwiliad hwn a rhannu manylion profiadau personol iawn ac a oedd, yn aml, yn rai poenus.

2. Iaith a chyd-destun

Mae'n hanfodol ein bod yn deall beth rydyn ni'n ei olygu wrth ddweud rhieni sydd wedi bod mewn gofal a'r heriau sy'n wynebu'r bobl ifanc hyn. O fewn y cyd-destun hwn maent yn wynebu'r cyfrifoldeb newydd, sy'n aml yn llethol, o fod yn riant.

Iaith

8. Mae'r ddeiseb hon yn cyfeirio at rieni sydd wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol pan oeddent yn blant, ac sydd, yn eu tro, yn destun ymyrraeth gan y gwasanaethau cymdeithasol pan gânt eu plant eu hunain. 'Plant sy'n derbyn gofal' yw'r term cyfreithiol ar gyfer plant y mae awdurdodau lleol yn gofalu amdanynt mewn ystod o leoliadau. Os ydynt yn bodloni meini prawf penodol pan maent yn cyrraedd oedran penodol, mae ganddynt hawl i gymorth tymor hwy, hyd at 25 oed mewn rhai amgylchiadau, ac fe'u diffinnir yn gyfreithiol fel 'pobl sy'n gadael gofal'. Caiff y derminoleg hon ei hadlewyrchu mewn ystadegau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n well gan lawer o bobl y term 'wedi bod mewn gofal' wrth gyfeirio at y grwpiau hyn o blant a phobl ifanc. Lle bo modd, mae ein hadroddiad yn defnyddio 'wedi bod mewn gofal' er mwyn adlewyrchu geiriad y ddeiseb.

Beth yw lleoliad rhiant a phlentyn?

9. Weithiau, mae awdurdod lleol yn lleoli plentyn a rhiant gyda'i gilydd mewn lleoliad sydd â therfyn amser. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn er mwyn caniatáu iddynt aros gyda'i gilydd tra bod asesiad rhianta a/neu achos llys yn cael ei gynnal. Fel arfer, defnyddir y lleoliadau hyn ar gyfer babanod yn hytrach na phlant hŷn. Gallant fod yn lleoliadau maeth neu'n lleoliadau preswyl, er enghraifft, mewn uned arbenigol ar gyfer rhiant a phlentyn. Gallant fod yn lleoliadau awdurdod lleol neu'n lleoliadau sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr preifat. Mae'r gallu i fagu plant yn rhan bwysig o'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant a'u Teuluoedd, fel y nodir yn y Cod ymarfer ar gyfer asesu anghenion unigolion, a gyhoeddwyd o dan Adran 145 o **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**.

Rhieni sydd wedi bod mewn gofal

10. Mae'r hyn sy'n digwydd i bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal pan ddônt yn rhieni eu hunain wedi bod yn destun sawl adroddiad a phrosiect ymchwil fel yr astudiaeth o blant y plant sy'n derbyn gofal.³ O'r wyth rhiant o Gymru sydd wedi bod mewn gofal, a gafodd eu cyfweld, trafodwyd 16 o'u plant ac roedd 12 o'r plant hynny yn 'derbyn gofal' neu wedi cael eu mabwysiadu.

11. Canfu'r astudiaeth⁴ o pobl sydd wedi gadael gofal a'u plant a gafodd eu mabwysiadu:

“Young people in and leaving state care are more likely than the general population to become parents at a young age. Relatively little is known about the experiences and progress of care leaver parents and their children, but emerging evidence suggests an increased risk of intergenerational state intervention.”

12. Roedd yn cyfeirio at ddata o Astudiaeth Garfan Fabwysiadu Cymru, a ganfu fod mwy na chwarter (27 y cant) o'r mamau biolegol ac un rhan o bump (19 y cant) o'r tadau biolegol a oedd â phlant wedi'u mabwysiadu yn bobl a oedd wedi gadael gofal eu hunain.

13. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith bod modd gwahaniaethu rhwng rhieni a oedd wedi bod mewn gofal â rhieni biolegol eraill yn sgil eu profiadau personol o gamdriniaeth ac esgeulustod, gan ddweud:

“Care leaver birth mothers were also more likely than their non-care leaver counterparts to have diagnosed mental health problems and were less likely to appeal the adoption plan. The profiles of children placed for adoption between care leaver and non-care leaver birth parents were similar.”

14. Canfu astudiaeth Sefydliad Nuffield⁵ yn Lloegr fod nifer uchel o fenywod sy'n ymddangos yn rheolaidd gerbron llysoedd teulu, ac y caiff eu plant, wedyn, eu cymryd i ofal cyhoeddus neu eu mabwysiadu, wedi bod mewn gofal eu hunain.

³ <https://onlinelibrary.wiley.com/doi/abs/10.1111/cfs.12344>

⁴ <https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/64055/>

⁵ <https://www.nuffieldfoundation.org/news/study-reveals-link-between-childhood-in-care-and-mums-who-have-babies-removed-by-the-courts>

15. Yn ôl cofnodion y llysoedd, roedd 40 y cant o sampl o 354 o famau a oedd yn destun achosion ailadroddus wedi derbyn gofal maeth neu wedi bod mewn cartref plant, gyda 14 y cant arall yn byw fel rhan o berthynas breifat neu anffurfiol i ffwrdd o'u rhieni.

Casglu a chyhoeddi data

16. Ni chyhoeddir data 'o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn', sef y data y cyfeirir atynt yn y ddeiseb. Mae'n bosibl bod nifer o asiantaethau'n rhan o hyn ond Awdurdodau Lleol a CAFCASS ydynt yn bennaf. Mae amrediad o ddata yn cael eu casglu gan awdurdodau lleol am blant sydd wedi bod mewn gofal, ac yna'n cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.⁶ CAFCASS Cymru yw'r sefydliad sy'n cefnogi plant a theuluoedd mewn achosion yn y llysoedd teulu. Mae'n cynghori'r llysoedd ynghylch y camau y mae'n ystyried fel y rhai gorau i'w cymryd er budd gorau plant unigol. Mae'r ystadegau y mae'n eu cyhoeddi i'w gweld yn ei Adroddiad Blynyddol 2019-20.⁷

⁶ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After>

⁷ www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-12/cafcass-cymru-adroddiad-blynyddol-2019-i-2020.pdf

3. Lleisiau rhieni sydd wedi bod mewn gofal

Mae'r bennod hon yn nodi'r heriau sy'n wynebu pobl ifanc yn eu geiriau eu hunain, naill ai mewn grwpiau ffocws, neu sesiynau tystiolaeth.

17. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, buom yn gwranddo ar brofiadau heriol pobl ifanc, a oedd yn aml yn rhai poenus iawn, o feichiogrwydd a dod yn rhieni tra mewn gofal neu fel pobl yn gadael gofal. Fe wnaeth Jennifer Molloy, rhiant sydd wedi bod mewn gofal sydd bellach yn magu dau o'i phump o blant, rannu ei phrofiadau gyda ni. Wedi cael ei magu yng ngofal yr awdurdod lleol, beichiogodd Jennifer pan oedd yn ddwy ar bymtheg oed.

"I was homeless, subject to a care order and the local authority were focusing on my child, not me, even though I was technically a looked-after child."⁸

Jennifer Molloy, rhiant sydd wedi bod mewn gofal

18. Bu'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion hefyd yn ymgysylltu â 24 o rieni ledled Cymru sydd wedi bod mewn gofal, gan gynnwys 20 o fenywod a 4 o ddynion, drwy grwpiau ffocws wyneb yn wyneb a oedd yn cael eu hwyluso mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru a Voices from Care Cymru. Ymunodd aelodau ag un grŵp trafod. Ceir rhagor o wybodaeth yn O.

19. Er mai naws bersonol oedd i hanes pob unigolyn, daeth rhai themâu cyffredinol clir i'r amlwg.

Stigma

20. Mae'n amlwg bod rhieni sydd wedi bod mewn gofal yn teimlo eu bod yn wynebu lefel uchel o stigma oherwydd eu profiadau yn y gorffennol. Arweiniodd hyn at rwystredigaethau gan y cyfranogwyr, sy'n teimlo bod hyn wedi arwain at brofiad gwael wrth iddod yn rhieni eu hunain.

⁸ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 26](#)

"The social worker was making out like we were just slobbs, the support just wasn't there, and there is just a feeling of stigma straight away."

"There is a stigma around care leavers that affects you in so many different ways – choice of career/education, the list goes on. The lack of support and judgment I had was horrendous."

Rhiant sydd wedi bod mewn gofal

21. Roedd yna hefyd lefel uchel o ddiecter nad oedd y stigma sy'n gysylltiedig â rhieni sydd wedi bod mewn gofal wedi newid dros y blynyddoedd gyda nifer o gyfranogwyr yn pryderu am yr effaith y gallai hyn ei chael, maes o law, ar eu plant hwy.

"This stigma has been here for years – when will it change? Will it be the same for our kids?!? Feels like it will never stop. Why are we still fighting for these voices to be heard?"

Rhiant sydd wedi bod mewn gofal

22. Er bod mwyafrif y rhwystredigaethau wedi'u cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol, roedd sawl pryder hefyd yn codi ynghylch yr agweddau negyddol gan weithwyr iechyd proffesiynol ac addysg.

"I had terrible hospital treatment. I felt more like a criminal than a new mother, to be honest with you, I was clearly being judged."

Rhiant sydd wedi bod mewn gofal

23. Clywsom sut mae un fam yn parhau i deimlo'r stigma hwn er ei bod bellach yn riant yn ei thridegau.

"I think there's very much stigma related in social services, education and health when it comes to you being in care."⁹

⁹ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 44](#)

Jennifer Molloy, rhiant sydd wedi bod mewn gofal

24. Mynegodd cyfranogwyr y grŵp ffocws bryder y gall hyn arwain at ofn ymysg pobl ifanc beichiog neu rieni newydd o ran gofyn am gyngor neu gefnogaeth.

Perthynas â rhieni corfforaethol

25. Thema allweddol gyffredinol arall a ddaeth i'r amlwg o'r grwpiau ffocws oedd y berthynas negyddol oedd gan rieni sydd wedi bod mewn gofal gyda'r gwasanaethau cymdeithasol.

"They told us the house wasn't tidy, so next time I made sure all the toys were away...what did they say? Oh where are all the toys...that was the next problem."

Rhiant sydd wedi bod mewn gofal

26. Er bod ambell i enghraifft o straeon cadarnhaol yn dod i'r amlwg gyda gweithwyr cymdeithasol unigol, roedden nhw'n teimlo gan amlaf nad oedd y gwasanaeth cymdeithasol yn darparu'r cymorth ymarferol ac emosiynol roedd ei angen arnynt. Rhannwyd sawl enghraifft sy'n tynnu sylw at y diffyg ymddiriedaeth a'r effaith a gafodd hyn.

"They are not always truthful with what they say...they tell me to be honest and open, but then on the other foot they use everything and anything you say against you."

"Social workers are the ones that just don't help us, they turn up announced on days that are not suitable all the time, then they wonder why I am upset and that just has a negative ending for me, doesn't it? It makes me look not fit for purpose. They are doing it on purpose."

Rhieni sydd wedi bod mewn gofal

27. Yn yr un modd, roedd nifer o'r rhieni sydd wedi bod mewn gofal yn anhapus â'u profiadau o ofal maeth ac roedd sawl un myfyrio ar y ffaith nad oedd gofal maeth a gwasanaethau cymdeithasol yn addas i'r diben.

“The foster carer gets away with everything. I found that they tried to make me angry on purpose so they can say ‘well she lost her temper – she has anger issues.”

Rhiant sydd wedi bod mewn gofal

Trawma Emosiynol

28. Nid yw'n syndod clywed pobl sydd wedi bod mewn gofal yn siarad am y trawma maen nhw wedi'i brofi yn eu bywydau. Mae'n drist clywed bod hyn wedi gwaethygu drwy eu profiadau gofal ac yn arbennig yr helynt, y gofid a'r galar emosiynol a deimlwyd pan gafodd eu plentyn neu blant eu cymryd o'u gofal.

“It's horrible – just horrible. It's hell seeing your child getting taken away from you, it makes me feel sick now even thinking about it, just traumatic.”

Rhiant sydd wedi bod mewn gofal

“When the kids got taken away it ruined me, wrecked our lives. It was 14 weeks before I saw my son again and my daughter 14 months – we never saw them over lockdown so we could only see them over the camera – a rubbish camera at that.”

Rhiant sydd wedi bod mewn gofal

29. Rhannodd y bobl ifanc sut mae eu profiadau wedi arwain at ddirywiad o ran iechyd meddwl a sut maen nhw'n cael trafferth rheoli hyn.

“Ultimately - these are life and death issues we are dealing with- it can and has pushed young people to suicide.”

Rhiant sydd wedi bod mewn gofal

“My mental health has taken a battering, how are you supposed to deal with it all? I know people who haven’t managed to and are in a terrible place. I feel lucky in a way that I managed to keep myself relatively intact, but the process of building yourself back up takes time and you need support.”

Rhiant sydd wedi bod mewn gofal

Cymorth

30. Gwnaeth yr holl gyfranogwyr sylwadau am y cymorth emosiynol ac ymarferol amhrisiadwy a roddwyd iddynt gan y trydydd sector.

“Voices have supported me for 3 or 4 years now, and have helped me develop my wider network as well.”

“I feel if I didn’t have voices – god knows where I would be.”

Rhieni sydd wedi bod mewn gofal

“Barnardo’s were great in giving me whole person support.”

Rhiant sydd wedi bod mewn gofal

“NYAS have been great for me. You feel there isn’t enough support with other things, bank accounts etc and that practical support is crucial. How do you pay bills? How do you budget? How do you chase people with housing? That support makes a huge difference.”

Rhiant sydd wedi bod mewn gofal

Diffyg cymorth

31. Gan ddisgrifio ei phrofiad trawmatig a wnaeth arwain at fabwysiadu dau o’i phlant a gosod un mewn gofal maeth, tynnodd Jennifer Molloy sylw at yr heriau ymarferol ac emosiynol ychwanegol y mae rhieni sydd wedi bod mewn gofal yn

eu hwynebu, gan gynnwys dim digon o gymorth ac arweiniad ynghylch iechyd rhywiol a pherthynas iach a methiant i ddarparu llety addas.

32. Tynnodd cyfranogwyr y grŵp ffocws sylw at brofiadau tebyg o ran diffyg cymorth a oedd yn diwallu eu hanghenion.

Beth fyddai'n helpu?

33. Awgrymodd cyfranogwyr y grŵp ffocws welliannau a fyddai wedi gwella eu taith. Roedd y rhain yn cynnwys mwy o gymorth emosiynol, atal, gwell cyfathrebu rhwng asiantaethau a newidiadau sylfaenol i'r system gofal cymdeithasol.

34. Nododd nifer o gyfranogwyr sut roedd angen clir am fwy o gymorth emosiynol ac i ariannu gwasanaethau i'w galluogi i ddarparu cymorth o'r fath.

"We need more support that makes a difference, we need people to help us not judge us, they need to see us as real people."

Rhiant sydd wedi bod mewn gofal

35. Pwysleisiwyd bod atal yn hanfodol er mwyn torri'r cylch o genedlaethau o blant, yn y dyfodol, yn cael eu cymryd i ofal oddi ar eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal.

"Nothing will get fixed for us, I get that – but prevention for the next generation is crucial."

"The best way to prevent that is early psychological interventions for children going into care, so it's not brought up as an excuse later on."

Rhieni sydd wedi bod mewn gofal

36. Roedd y bobl ifanc yn teimlo bod cyfathrebu gwael yn rhwystro'r modd y cânt eu cefnogi, cael gafael ar wasanaethau, trefniadau cyswllt ac ymweliadau gweithwyr cymdeithasol, er enghraifft. Maen nhw'n credu bod yn rhaid gwella cyfathrebu rhwng ac o fewn asiantaethau a rhyngddyn nhw.

4. Ymchwil a data

Mae'r bennod hon yn nodi rhai canfyddiadau o astudiaethau academaidd

37. Rhoddodd Dr Louise Roberts, Uwch Ddarlithydd ym Mhrifysgol Caerdydd a rhan o CASCADE, y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant, drosolwg o'r astudiaeth ymchwil bum mlynedd a wnaed rhwng 2014 a 2019 sy'n ymchwilio i'r heriau y mae rhieni sydd wedi bod mewn gofal yn eu hwynebu.

38. Daeth y syniad ymchwil cychwynnol gan bobl ifanc, sy'n gysylltiedig â Voices from Care, yn pryderu am ormod o achosion lle'r oedd pobl ifanc sy'n dechrau teuluoedd yn teimlo nad oeddynt yn cael digon o gymorth ac yn profi ymyrraeth orfodol y gwasanaethau plant ac yn teimlo y byddai'n werth archwilio hyn ymhellach.¹⁰

39. Roedd sawl cam i'r ymchwil a oedd yn cynnwys cyfweiliadau â rhieni sydd wedi bod mewn gofal a chyda gweithwyr proffesiynol. Ymgysylltodd y gwaith ymchwil â Gwasanaethau Gadael Gofal yr awdurdodau lleol i gael cipolwg ar rieni sydd wedi bod mewn gofal ar adeg benodol. Roedd angen hyn gan nad yw data o ran faint o rieni sydd wedi bod mewn gofal ar unrhyw un adeg neu bob blwyddyn yn cael eu casglu ac nid oes data ar gael chwaith o ran canlyniadau i rieni a phlant.

40. Canfu'r ymchwil rywfaint o dystiolaeth bryderus o ran canlyniadau a lefelau gwahanu rhieni a phlant.¹¹ Datgelodd y dadansoddiad eilaidd o setiau data cenedlaethol presennol, gan gynnwys astudiaeth fabwysiadu Cymru, fod un o bob pedair mam fiolegol yn cael ei chofnodi fel person sydd wedi gadael gofal, ac un o bob pum tad biolegol. Nododd y cipolwg ar rieni sydd â phrofiad o ofal 258 o rieni, 238 o blant a 44 beichiogrwydd. Mae'r data'n dangos bod 26 y cant o blant wedi'u gwahanu oddi wrth y ddau riant biolegol. Fodd bynnag, heb ddata a gesglir yn rheolaidd, nid yw'n hawdd dehongli beth mae'r ffigurau'n ei olygu.¹²

41. Archwiliwyd profiadau a safbwyntiau gweithwyr proffesiynol a rhieni. Canfu dystiolaeth o stigma, gwahaniaethu ac anfantais lle'r oedd gan weithwyr proffesiynol dueddiad i holi sut y byddai profiadau rhieni, cyn gofal ac mewn gofal,

¹⁰ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 14](#)

¹¹ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 18](#)

¹² [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 18](#)

yn dylanwadu ar eu gallu i fod yn rhieni.¹³ Er enghraifft roedd tystiolaeth o gyfeirio rhieni yn rheolaidd at wasanaethau plant ar gyfer asesiadau rhianta.

42. Canfu'r ymchwil nad yw cymorth i bobl ifanc beichiog neu rieni sydd wedi bod mewn gofal wedi'i ddatblygu'n llawn a'i fod yn amrywio ar draws Cymru, er bod Dr Roberts yn cydnabod bod rhai datblygiadau wedi bod yn y maes yma ers hynny. Roedd yn amlwg hefyd bod pwyslais yn cael ei roi ar y ffaith ei bod yn bwysig i rieni gael gafael ar ffynonellau anffurfiol o gymorth fel aelodau o'r teulu biolegol, cyn-ofalwyr maeth, neu bartneriaid. I lawer o bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, mae'r rhwydweithiau cymorth anffurfiol hyn yn gyfyngedig, ac er bod cael rhywun i ddibynnu arnynt yn cael ei ystyried yn bwysig iawn, roedd llwyddiant wrth fagu plant heb gymorth o'r fath yn cael ei ystyried yn llawer mwy heriol. Rhannodd Dr Roberts ei fod yn cael ei dderbyn yn gyffredinol bod cymorth gan rieni corfforaethol yn ddewis amgen gwael iawn am yr hyn y byddech fel arfer yn disgwyl sydd ar gael gan deuluoedd biolegol.¹⁴ Canfu'r ymchwil dystiolaeth o anghenion lluosog rhieni, gan gynnwys anghenion ymarferol, perthynas, emosiynol ac ariannol.

43. Rhannodd Dr Roberts y gwaith cadarnhaol a chydweithredol a wnaed i ddatblygu cymorth rhianta corfforaethol gan gynnwys datblygu siarter arferion da. Cafodd hyn ei gyd-gynhyrchu gyda rhieni sydd wedi bod mewn gofal a thrwy ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol yn y sector statudol a'r trydydd sector. Mae'r siarter yn rhoi ymrwymiad clir i ddarparu cefnogaeth gyfannol cyn ac yn ystod beichiogrwydd a phan fydd pobl ifanc yn dod yn rhieni.¹⁵ Y nod yw y gall pob awdurdod lleol ymrwymo'n ffurfiol i'r siarter, a gaiff ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru, y Comisiynydd Plant a Gofal Cymdeithasol Cymru.

44. Mae rhieni a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal wedi bod yn ganolog i'r ymchwil drwyddi draw ac fe glywsom gan Jennifer Molloy sydd wedi cymryd rhan weithredol. Mae ei llythyr pwerus yn ddiweddglo i lyfr Dr Roberts The Children of Looked After Children sy'n manylu ar yr ymchwil hwn. Rydym yn ddiolchgar i Jennifer a fyfyrodd ar ei phrofiadau o feichiogi tra roedd mewn gofal, fel rhywun sydd wedi gadael gofal a thu hwnt. Roedd llawer o'r profiadau a rennir yn taro deuddeg gyda'r hyn a ddywedwyd wrthym gan rieni eraill sydd wedi bod mewn gofal, gan gynnwys y profiad o stigma a gwahaniaethu, diffyg tai addas ac ofn dweud wrth weithwyr iechyd proffesiynol am feichiogrwydd ac ymyrraeth ddilynol y gwasanaethau plant. Tynnodd Jennifer sylw hefyd at y golled ddinistriol

¹³ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 19](#)

¹⁴ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 20](#)

¹⁵ www.exchange.wales.org/cy/cefnogi-rhieni-mewn-gofal-ac-wrth-ei-adael-negeseuonirienicorfforaethol/

a gaiff ei phrofi pan fydd plentyn yn cael ei gymryd oddi ar ei riant, a'r effaith a'r rhwystrau y gall hyn eu cael ar ymgyllylltu yn y dyfodol.

"... when you're going through parenting assessments, it's advised that you get everything ready ... so have a pram, have a cot and a bedroom set up, which I think is unnecessary, if they don't know the outcome of an assessment ... because then you're left with a room that's very upsetting and distressing to see ... So, sometimes, that can be a barrier, trying to just complete the assessment."¹⁶

Jennifer Molloy, rhiant sydd wedi bod mewn gofal

45. Wrth geisio gwella canlyniadau i rieni sydd wedi bod mewn gofal galwodd Dr Roberts am gymorth gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r siarter arferion da, ar gyfer casglu data'n rheolaidd o ran rhieni sydd wedi bod mewn gofal a chanlyniadau i deuluoedd, er mwyn i'r ddeddfwriaeth fod yn glir bod angen cymorth ar bobl ifanc pan fyddant yn dod yn rhieni a bod gwasanaethau cymorth y trydydd sector yn parhau i gael eu datblygu a'u hariannu.¹⁷

¹⁶ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 21

¹⁷ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraffau 61-64

5. Darparwyr gwasanaethau – gweithio gyda theuluoedd

Mae'r dystiolaeth hon yn cyfleu'r hyn a glywsom gan yr unigolion a'r sefydliadau sy'n cynorthwyo rhieni sydd wedi bod mewn gofal.

46. Cawsom dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig gan amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau, gan gynnwys awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithio gyda rhieni sydd wedi bod mewn gofal, gan archwilio themâu allweddol a gaiff eu hamlygu gan ymchwil a phobl ifanc.

Risg uwch o ymyrraeth orfodol gan wasanaethau plant?

47. Er bod yr holl dystiolaeth a gafwyd yn adlewyrchu'r heriau a'r cymhlethdodau niferus sy'n gysylltiedig â'r broses pan fo pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn beichiogi, mae safbwyntiau gwahanol ynglŷn ag a yw ymyrraeth gwasanaethau plant bob amser yn gymesur. Mae pobl ifanc wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo stigma oherwydd eu cefndir o ofal gan gydnabod bod angen cymorth pwrpasol a sensitif arnynt.

48. Rhannodd Mark Carter, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant Barnardo's, y canlynol am bobl ifanc feichiog y gwasanaeth Baby and Me yng Nghasnewydd, sydd wedi bod mewn gofal:

"...certainly disproportionately represented within our referrals that we receive—it's just under half of our referrals. And then two thirds of our referrals are recurrent care proceedings, where families have had previous children removed. Really, I think what we find with care experienced young people is that the range of difficulties, complexities and trauma that they've experienced throughout their childhoods isn't necessarily taken into consideration."¹⁸

¹⁸ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 88

49. Esboniodd pa mor bwysig yw darparu pecyn cymorth pwrpasol a dwys i sicrhau bod y baban a'r rhiant/rhieni yn cael cefnogaeth dda a bod asesiad trylwyr o'u hanghenion a'u galluoedd rhianta yn cael ei gynnal.¹⁹

50. Pwysleisiodd Liz Baker, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant Barnardo's bwysigrwydd y fframwaith sy'n ystyriol o drawma a gaiff ei ddatblygu sy'n cydnabod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac achosion o drawma sy'n ailgodi. Nododd nad yw'r ymateb a gaiff gan weithwyr proffesiynol bob amser yn cydnabod hyn yn ddigonol ac felly caiff pobl ifanc eu barnu ar eu hymddygiad neu anallu i ymateb i gais gan weithwyr proffesiynol. Mae hi'n argymhell defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfder sy'n ystyriol o'u profiadau.²⁰

51. O ganlyniad i gynnydd mewn achosion eiriolaeth sy'n cefnogi menywod ifanc sydd wedi bod mewn gofal ac sy'n feichiog, sefydlodd y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS), brosiect Unity gydag arian grant Llywodraeth Cymru. Esboniodd eu Prif Swyddog Gweithredol, Sharon Lovell, fod y prosiect yn gweithio gyda dim ond menywod ifanc sydd wedi bod mewn gofal, ac y mae eu plant naill ai mewn perygl o fod ar y gofrestr amddiffyn plant neu'n ymwneud ag achosion gofal. Ers mis Ebrill 2020,

"[We have] worked with 108 young women whose children have all been subjected to child protection proceedings. I think that evidence alone suggests that the children who are born to care experienced young women are stigmatised much more than non-care experienced young people."²¹

Sharon Lovell - NYAS

52. Dywedodd Voices from Care Cymru fod rhieni ifanc sydd wedi bod mewn gofal wedi dweud eu bod yn teimlo stigma oherwydd eu cefndir o ofal, gan gyfeirio at enghraifft o weithiwr proffesiynol yn gwneud cymariaethau rhwng y rhiant sydd wedi bod mewn gofal a'u rhiant hwy, sy'n achosi gofid pellach.²² Mae Deborah Jones, y Prif Swyddog Gweithredol, yn credu bod y gwaith gyda phobl ifanc yn dangos eu bod yn fwy tebygol na'u cyfoedion o gael ymyrraeth gan wasanaethau cymdeithasol. Wrth fyfyrion ar y cyfarfod gyda phobl ifanc a gaiff gymorth Voices from Care, rhannodd Buffy Williams fod rhai o'u straeon yn

¹⁹ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 89

²⁰ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 92

²¹ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 94

²² Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 25 Ebrill 2022, paragraff 143

frawychus, a'u bod yn teimlo eu bod wedi methu fel rhieni hyd yn oed cyn eu cyswllt cyntaf â gweithiwr iechyd proffesiynol.

"I felt like I could've just given my child over as soon as I'd given birth, because there was no point in even trying."

Rhiant sydd wedi bod mewn gofal

53. Yn ei rôl fel Cadeirydd Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru gyfan, pwysleisiodd Annabel Lloyd bod cadw teuluoedd gyda'i gilydd wrth wraidd eu gwaith a bod ganddyn nhw wasanaethau sydd ar gael ar yr adeg gywir, ac yn y ffordd gywir, sy'n ystyriol o drawma ac yn seiliedig ar dystiolaeth, wedi'u gwreiddio mewn ymarfer ar sail cryfder.²³ Rhoi sicrwydd, pan fydd asesiadau cyn geni yn cael eu cynnal nad ydynt o reidrwydd yn nodi bod rhiant neu riant sy'n disgwyl wedi bod mewn gofal, ond pwysleisiodd bwysigrwydd cefnogi pobl sy'n gadael gofal wrth gydnabod eu cefndiroedd cymhleth. Dywedodd bod penderfyniad i wahanu rhiant a phlentyn yn ymyrraeth anhygoel ym mywyd teulu—yn benderfyniad na fyddai fyth yn cael ei wneud cyn ystyried ac ailystyried ac edrych ar bob opsiwn ar gyfer dewisiadau amgen. Dewis olaf un ydyw.²⁴ Ni fyddai unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei wneud yn ynysig a byddai'n golygu gweithio gydag asiantaethau eraill gan gynnwys iechyd a'r farnwriaeth.

54. Pwysleisiodd yr awdurdodau lleol hefyd nad oes gan nifer o rieni sydd wedi bod mewn gofal, yn enwedig y rhai dros 21 oed, unrhyw gysylltiad â gwasanaethau plant yn ystod beichiogrwydd nac yn eu bywyd teuluol. Nodwyd bod ymyrraeth yn fwy tebygol o ddigwydd pan fydd y rhieni'n ifanc iawn, o dan 21 oed, ac angen cymorth. Er eu bod yn cydnabod y profiadau negyddol a amlygwyd gan bobl ifanc a gwaith ymchwil, fe wnaethant bwysleisio'r gwaith sydd wedi digwydd ac sy'n parhau, i ddatblygu arferion sy'n ystyriol o drawma, ar sail cryfder i gefnogi rhieni ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau fel Baby and Me yng Nghasnewydd, Jig-So yn Abertawe, Baby in Mind ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a Magu, sy'n wasanaeth sydd mewn datblygiad yn Rhondda Cynon Taf. Ond nodwyd bod gwahaniaethau yn yr hyn sydd ar gael ledled Cymru.

55. Rhoddodd Julie Davies, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd gipolwg ar ddata o Ddinas a Sir Abertawe wybodaeth am 380 o bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal mewn cysylltiad â'r awdurdod lleol yn Abertawe ym mis Mawrth 2022. Awgryma bod 21 o'r rhain yn rhieni ac roedd plant 14 ohonynt yn dal

²³ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraffau 12 a 13](#)

²⁴ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 25 Ebrill 2022, paragraff 15](#)

i fyw gyda nhw. O'r garfan o rieni sydd wedi bod mewn gofal, roedd 5 o dan 18 oed pan anwyd y plentyn (yr ieuengaf yn 15) ac roedd 16 rhwng 18 a 22 oed.²⁵ Ymddengys bod hyn yn awgrymu bod plant traean o rieni sydd wedi bod mewn gofal yn cael eu cymryd oddi arnynt. Ond roedd gwaith yn parhau gyda'r teuluoedd a oedd wedi'u gwahanu, a allai arwain at ddychwelyd eu plant i'w gofal.

Gwasanaethau cymorth pwrpasol ac amserol

56. Clywsom dystiolaeth rymus am wasanaethau pwrpasol sy'n gwneud gwahaniaeth ac sy'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i lawer o deuluoedd ifanc. Mae Reflect yn wasanaeth gan Barnardo's, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, i gefnogi menywod y mae un neu fwy o blant wedi'u cymryd o'u gofal cyn hynny. Fel y disgrifiodd Liz Baker, menywod sy'n dioddef colled a galar yw'r rhain, a gaiff eu gadael yn aml heb gefnogaeth yn dilyn profiad mor drawmatig. Maent yn wynebu heriau sylweddol gan gynnwys y prosesau ymarferol o ddeall budd-daliadau a thai, stigma cymdeithasol o blentyn wedi'i gymryd oddi arnynt ac effaith sylweddol ar eu hiechyd meddwl. Gwaith Reflect yw darparu cyngor a chymorth ac mae'n gweithio gyda'r menywod i'w galluogi i wneud synnwyr o'u profiadau, gwella eu hymdeimlad o'u hunaniaeth eu hunain a phwrpas yn eu bywydau.²⁶

57. Gan ddisgrifio'r gwasanaeth fel un sydd yn sicr wedi'i gyd-gynhyrchu, eglurodd Liz Baker fod Reflect yn ymateb i anghenion a dymuniadau'r menywod mae'n eu cefnogi. Mae llawer o waith grŵp yn digwydd, sy'n canolbwyntio ar eu llesiant a'u hiechyd meddwl gan fod y menywod eisiau mwy o amser gyda menywod eraill a oedd wedi cael profiadau tebyg. Gwerthfawrogir y rhwydwaith hwn gan eu bod yn teimlo nad ydyn nhw'n cael eu barnu, does dim o'r stigma, a gallan nhw fagu eu hyder yn araf, fel pan maen nhw'n barod i droi at hyfforddiant a gwasanaethau prif ffrwd, yna maen nhw'n teimlo eu bod wedi ennill ymdeimlad o hunaniaeth drwy'r gefnogaeth honno.²⁷

58. Cawsom dystiolaeth gadarnhaol am wahanol wasanaethau cymorth, gan gynnwys Baby a Me sy'n bartneriaeth rhwng Barnardo's a'r awdurdod lleol i ddarparu gwasanaeth sy'n ystyriol o drawma, ar sail cryfder i gefnogi anghenion rhieni yng Nghasnewydd sy'n agored i niwed. Yn ôl Sally Jenkins, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Dinas Casnewydd, un o'r gwersi a ddysgwyd pan sefydlwyd y gwasanaeth oedd cynnig cymorth mor gynnar â phosib yn ystod

²⁵ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 25 Ebrill 2022, paragraff 20

²⁶ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 112

²⁷ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 113

beichiogrwydd. Mae hyn bellach yn arfer sydd wed'i sefydlu ar draws y bwrdd iechyd er mwyn cynnig cymorth, os yw'n briodol, cyn gynted ag y byddant yn dod yn ymwybodol o'r feichiogrwydd. Mae gwneud hynny o gyfnod cynnar yn rhoi cyfle i feithrin perthynas a darparu pecynnau cymorth dwys gan gynnwys cymorth ymarferol gyda thai, gofalu am faban, ac yn enwedig y cymorth emosiynol, ar sail perthynas, sef yr hyn sy'n wirioneddol bwysig.²⁸

59. Yn yr un modd rydym wedi cael adborth cadarnhaol gan Jig-So ac awdurdod lleol Abertawe am eu gwasanaeth cymorth i rieni sy'n agored i niwed, gan gynnwys rhieni sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r gwasanaeth Jig-so yn cynnwys bydwragedd arbenigol a staff yr awdurdodau lleol.²⁹

Astudiaeth achos

Cyfeiriodd y fydwaig gymunedol berson ifanc sydd wedi bod mewn gofal at Jig-so a'r gwasanaeth plant a theuluoedd. Digwyddodd hyn 10 wythnos ar ôl beichiogi, gan arwain at fydwaig arbenigol yn cymryd yr awenau, a dyraniad cynnar ar gyfer cymorth rhianta. Cefnogodd Jig-So asesiad a chynllun y gweithiwr cymdeithasol a thargeddu eu gwaith, a buont yn cynorthwyo'r person ifanc gyda materion ymarferol gan gynnwys tai a budd-daliadau cyn ac ar ôl yr enedigaeth. Roedd y 30 wythnos i weithio gyda'r person ifanc cyn yr enedigaeth yn rhoi cyfleoedd i fynd i'r afael â nifer o bryderon, lleihau'r risgiau a chydabod cryfderau a chyfleoedd. Cafodd perthynas bositif ei datblygu rhwng gweithwyr a'r person ifanc, gan gynnwys cymorth gan ofalwr maeth a grŵp cymorth mam a baban. Roedd y grŵp gyfle i gwrdd â rhieni ifanc eraill mewn amgylchiadau tebyg, a chynyddodd ei rhwydwaith cymorth. Ymhen saith mis roedd y fam a'r baban yn byw'n annibynnol ac yn parhau i gael cymorth gan fydwaig arbenigol a nyrs feithrin, cymorth rhianta un i un a chefnogaeth grŵp a hwyluswyd gan Jig-so a gweithio gyda gwasanaethau eraill.³⁰

60. Rhannodd Jig-so rywfaint o adborth o'i werthusiadau gan dynnu sylw at yr effaith gadarnhaol y mae ei gefnogaeth yn ei chael ar fywydau rhieni ifanc.³¹

²⁸ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 25 Ebrill 2022, paragraff 49](#)

²⁹ [Cohebiaeth gan Jig-so](#), Abertawe, 25 Gorffennaf 2022

³⁰ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 25 Ebrill 2022, paragraffau 51-53](#)

³¹ [Cohebiaeth gan Jig-So](#), Abertawe, 25 Gorffennaf 2022

"Having regular visits and someone to talk to and listen to me. I couldn't have done it without Jig-so".

Rhiant a gefnogir gan Jig-so

"...very understanding and helped me to make positive changes and carried out sessions to suite my needs."

Rhiant a gefnogir gan Jig-so

61. Cytunodd Francesca Pritchard, Voices from Care, fod enghreifftiau o arfer da lle mae perthynas dryloyw rhwng y rhiant sydd wedi bod mewn gofal a'r rhieni corfforaethol hynny sy'n cefnogi'r unigolion hyn, ac sy'n darparu perthynas gynaliadwy o feichiogrwydd gynnar ac yna ar ôl y geni, fel eu bod yn gallu cefnogi'r unigolyn hwnnw mewn model ymyrraeth gynnar, a'u cynorthwyo drwy unrhyw drawsnewid y gallent fod yn eu profi, fel symud lleoliadau, mynd i dŷ a byw'n annibynnol.³²

Rhwydweithiau cymorth

62. Roedd pwysigrwydd rhwydwaith cymorth a pherthynas bositif yn neges gyson drwy gydol ein hymchwiliad. Ychydig iawn o deulu neu gysylltiadau cadarnhaol eraill a all roi cymorth ymarferol ac emosiynol sydd gan y rhan fwyaf o bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, os o gwbl.

63. Rhoddodd NYAS, Barnardo's a Jig-so enghreifftiau o sut mae eu gwaith yn annog cysylltiadau cadarnhaol gan gefnogi pobl ifanc i ddatblygu rhwydweithiau gyda ffrindiau, teulu, teulu eu partner neu ofalwyr maeth blaenorol. Gan gydnabod yr unigrwydd a gaiff ei deimlo gan lawer o rieni sydd wedi bod mewn gofal, yn enwedig os nad yw eu llety o fewn eu cymuned eu hunain, disgrifiodd Mark Carter y gwaith cadarnhaol a wneir yng Nghasnewydd i hyrwyddo'r rhwydweithiau hyn drwy gynadleddau grwpiau teuluol a chyfarfodydd cysylltiadau gydol oes.³³

64. Barn rhieni sydd wedi bod mewn gofal, a darparwyr gwasanaethau yw bod cymorth gan gyfoedion yn werthfawr. Mae'r Unity Project wedi annog y menywod

³² Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 25 Ebrill 2022, paragraff 121

³³ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 146

ifanc y maent wedi gweithio gyda nhw i greu eu rhwydwaith cymorth eu hunain ac, o ganlyniad i hyn, sefydlwyd caffï cymorth cymheiriaid.

"...where other like-minded young women can support other young women going through these same issues that they've faced, and be there as a peer support network for them."³⁴

Daljit Kaur Morris, NYAS

65. Pwysleisiodd Voices from Care Cymru pa mor bwysig yw cymorth gan gymheiriaid hefyd, lle mae ymddiriedaeth gynhenid gan nad oes rhwystrau'n seiliedig ar ragfarn, ac maent yn gweithio i sefydlu grŵp cenedlaethol o gyfoedion sy'n rhieni.³⁵

66. Pwysleisiodd Sally Jenkins ei bod yn anochel fod pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal wedi profi graddau enfawr o drawma a cholled, ac yn aml iawn, yr hyn sy'n peri tristwch yw nad oes ganddynt y gefnogaeth deuluol a'r fframwaith teuluol o'u cwmpas sydd ei angen ar unrhyw un ohonom i fod yn rhiant llwyddiannus.³⁶

67. Cydnabyddir gan bob darparwr gwasanaeth fod angen gwaith atgyweiriol ar bobl ifanc i fynd i'r afael â'u profiadau, a deall y profiadau hynny, er mwyn gallu symud ymlaen. O ystyried eu profiadau, mae angen cymorth ychwanegol i feithrin a chynnal perthynas â theuluoedd, ffrindiau neu grwpiau cyfoedion gofalwyr maeth.

Eiriolaeth

68. Mae eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal ac sy'n gadael gofal yn cael ei ystyried yn hanfodol er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod eu hawliau'n cael eu hyrwyddo. Er bod ymrwymiad yng Nghymru i gynnig eiriolaeth annibynnol ar gyfer pob plentyn sydd wedi bod mewn gofal, rydym wedi clywed am y gwahaniaeth y gall ei wneud i rieni sydd wedi bod mewn gofal.

69. Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod yn teimlo'n ddi-rym pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am lesiant a diogelwch eu plentyn. Mae'r dystiolaeth gan NYAS yn tynnu sylw at brofiadau tebyg, gan gynnwys mamau ifanc 14-15 oed, sy'n dal i fod mewn gofal eu hunain yn teimlo, unwaith y byddan

³⁴ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 108

³⁵ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 25 Ebrill 2022, paragraff 117

³⁶ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 25 Ebrill 2022, paragraff 24

nhw'n feichiog, eu bod yn cael eu hanghofio, bod eu cymorth personol yn lleihau, bod penderfyniadau'n cael eu gwneud o ran ble y byddan nhw'n byw ac a fyddan nhw'n byw gyda'u babanod.³⁷

70. Mae eiriolaeth yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi rhieni sydd â phrofiad o ofal i gael llais, egluro gwybodaeth a sicrhau eu bod yn cael cymorth priodol. Mae'r dystiolaeth gan rieni sydd wedi bod mewn gofal, NYAS a Voices from Care wedi tynnu sylw at werth eiriolaeth ac fe wnaethon ni groesawu ymrwymiad y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i gynyddu'r ddarpariaeth eiriolaeth ar gyfer rhieni. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda darparwyr y trydydd sector, NYAS, Tros Gynnal Plant a'r rhwydwaith eiriolaeth ar gyfer rhieni i gynyddu'r ddarpariaeth er mwyn gwneud yn hollol sicr bod rhywun ar gael i siarad ar ran y rhieni. Os yw hynny ar waith, bydd eiriolaeth ar gyfer rhieni yn gwneud gwahaniaeth enfawr er mwyn cadw plant gartref.³⁸

71. Yn ogystal â gwasanaethau eiriolaeth mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol strategaethau cyfranogi er mwyn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed. Esboniodd Annabel Lloyd o Rondda Cynon Taf ei bod hi, fel y rhan fwyaf o benaethiaid gwasanaethau, yn cwrdd â phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Disgrifiodd y gwaith sylweddol sy'n cael ei wneud er mwyn clywed amrywiaeth gynrychioliadol o leisiau.³⁹ Yn yr un modd, disgrifiodd Julie Davies ei bwriad i sicrhau bod y bwrdd rhianta corfforaethol yn Abertawe yn parhau i glywed lleisiau rhieni sydd wedi bod mewn gofal yn rheolaidd, ac mae hynny'n arbennig o bwysig.⁴⁰

Heriau awdurdodau lleol

72. Mae papur a gynhyrchir gan holl benaethiaid gwasanaethau plant Cymru o dan yr enw 'Pwysau gwasanaethau plant', a rannwyd ag aelodau'r Pwyllgor yn unig, yn tynnu sylw at yr heriau ychwanegol, sy'n cynnwys cynnydd yn y galw. Rhoddodd Annabel Lloyd enghraifft o Rhondda Cynon Taf, ei hawdurdod lleol ei hun, lle mae wedi profi cynnydd o 42 y cant yn y galw dros y ddwy flynedd diwethaf. O ganlyniad, mae wedi buddsoddi mewn mathau newydd o wasanaethau cymorth cynnar wrth i anghenion newydd ddod i'r amlwg, yn enwedig i blant llai sydd wedi'u geni yn ystod cyfnod y pandemig ac nad ydynt wedi cael yr un cyfleoedd.⁴¹

³⁷ [Cohebiaeth gan NYAS 21 Mawrth 2022.pdf \(senedd.cymru\)](#)

³⁸ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 16 Mehefin 2022, paragraff 26](#)

³⁹ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 25 Ebrill 2022, paragraff 69](#)

⁴⁰ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 25 Ebrill 2022, paragraff 71](#)

⁴¹ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 25 Ebrill 2022, paragraff 39](#)

73. Her sylweddol arall yw sicrhau gweithlu digonol, gan fod angen gweithwyr ar gyfer gwasanaethau newydd a rhai sy'n datblygu, ac mae mae argaeledd gweithwyr cymdeithasol cymwys a phrofiadol ar gyfer diogelu a gwaith llys wedi lleihau.

"...some of the local authorities in Wales are working with teams that experience 30 or 40 per cent vacancy rates, and the context of that increasing demand adds to the constraints."⁴²

Annabel Lloyd, awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf

74. Mae awdurdodau lleol hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc a theuluoedd, nad oedd yn hysbys iddynt cynt, a ddaw atynt gydag anghenion dwys, cymhleth, gan gyfyngu ar y cyfleoedd atal a gwaith cymorth o ganlyniad i lefel y risg gysylltiedig.

75. Er mwyn gweithio'n effeithiol, mae angen i wasanaethau plant weithio ar y cyd â gwasanaethau partner ac i'r gwasanaethau hynny fod ar gael pan fo angen darparu dulliau integredig ar sail cryfder ar draws gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS), addysg a chyfiawnder troseddol i sicrhau bod y dull 'dim drws anghywir' wedi'i ymgorffori.⁴³ Tynnodd Julie Davies sylw at y diffyg gwasanaethau iechyd meddwl digonol ar gyfer pobl ifanc a'r angen am well cymorth a gwasanaethau amserol ledled Cymru.⁴⁴

76. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrthym fod canfod lleoliadau addas yn aml yn heriol, gan arwain at leoli rhiant ifanc a'u baban ymhell oddi wrth unrhyw rwydweithiau cymorth. Dywedodd wrth y pwyllgor hefyd y gall rhieni gael eu dal rhwng eu hanghenion eu hunain o ran cymorth a'r angen i ddarparu eu sgiliau magu plant mewn amgylchiadau anghyfarwydd, tra maent, yn aml, yn destun craffu ac asesu dwys.⁴⁵

77. Nododd awdurdodau lleol eu bod yn wynebu heriau difrifol o ran lleoliadau i bobl ifanc mewn gofal ac ar gyfer lleoliad rhiant a phlentyn. Fodd bynnag, nid yw symud rhiant a phlentyn allan o'u cymuned i'w rhoi mewn lleoliad preswyl neu faeth yn cael ei ystyried yn addas ar gyfer meithrin cysylltiadau a chefnogaeth o fewn eu cymuned, yn ôl Sally Jenkins. Mae hefyd yn anodd darparu'r gefnogaeth gywir o fewn y gymuned tra mae pwysau aruthrol ar wasanaethau.⁴⁶ Mae eraill,

⁴² Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 25 Ebrill 2022, paragraff 40

⁴³ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 25 Ebrill 2022, paragraff 42

⁴⁴ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 25 Ebrill 2022, paragraff 44

⁴⁵ Gohebiaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru, 3 Medi 2021

⁴⁶ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 25 Ebrill 2022, paragraff 46

gan gynnwys NYAS a Voices from Care, yn galw am fwy o opsiynau i fod ar gael o ran lleoliadau mam a baban, gan gynnwys opsiynau sy'n cynnwys y tad neu'r partner.⁴⁷ Rhannodd Barnardo's enghraifft drist o anallu i ddod o hyd i leoliad addas yn lleol a bod hynny wedi cyfrannu at chwalu'r lleoliad i'r fam a'r baban.⁴⁸

78. Mae sicrhau tai addas o fewn eu cymuned hefyd yn fater o bwys a godwyd gan bobl ifanc a darparwyr gwasanaethau. Nododd NYAS Cymru bod anawsterau sylweddol ynghylch canfod tai addas a hefyd cadw tenantiaeth tra'n cael eu hasesu mewn lleoliad mam a baban. Cyfeiriodd Rheolwr Gweithrediadau NYAS at enghraifft erchyll.

"A 21-year-old in her own flat who was moved to a mother and baby foster placement following the birth of her baby, and she wasn't sure that her flat would be safe, and after two weeks, the flat was cleared and all her belongings were moved and she was told that she had to leave and vacate the room. Her baby and her were immediately put at risk, so our staff members were able to support at that moment of need. It is really challenging."⁴⁹

Daljit Kaur Morris, NYAS

79. Mae her sylweddol o ran gwella rhianta corfforaethol ledled Cymru. Mae'n amlwg na all gwasanaethau plant weithio'n effeithiol heb asiantaethau partner, fel y tystia gwaith ymchwil Louise Roberts, pobl ifanc a darparwyr gwasanaethau. Fel y mae Sharon Lovell yn crynhoi, ni ddylai rhianta corfforaethol orffwys gyda'r gwasanaethau cymdeithasol yn unig, ond mewn meysydd polisi eraill hefyd fel tai, iechyd, addysg, gwasanaethau ieuencid, hamdden, trafndiaeth - bod pawb yn gyfrifol am fod yn rhiant ar y cyd i ofalu am bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

⁵⁰ Roedd hyn yn taro deuddeg drwy gydol y dystiolaeth a glywsom. Mae angen ymateb aml-asiantaeth ar deuluoedd ifanc sydd wedi bod mewn gofal, lle mae rhwystrau i wasanaethau'n cael eu dileu ac mae cydweithio effeithiol ar draws yr holl asiantaethau yn hanfodol.

80. Cael gafael ar gymorth tai ac iechyd meddwl yw dau o'r meysydd sy'n broblematic, ac roedd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydnabod hyn. Nododd Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr, y grŵp galluogi pobl, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru, fod gwaith yn mynd

⁴⁷ [Cohebiaeth gan NYAS 21 Mawrth 2022.pdf \(senedd.cymru\)](#)

⁴⁸ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 125](#)

⁴⁹ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 100](#)

⁵⁰ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 131](#)

rhadddo i edrych ar lety â chymorth a modelau gofal wedi'u rhoi ar waith o amgylch y llety hynny, a fydd yn llywio'r rhaglen i gryfhau rhianta corfforaethol a'r berthynas rhwng gwasanaethau cymdeithasol a thai.⁵¹

81. Mae gwasanaethau plant a sefydliadau'r trydydd sector yn llwyr gefnogol i'r siarter rhianta da ar gyfer rhianta corfforaethol. Dywedodd awdurdod lleol Bro Morgannwg wrthym ei fod eisoes wedi ymrwmo i weithredu'r siarter.⁵² Mae galwadau ar i hyn ddod yn ofyniad statudol i sicrhau ymrwymiad cadarnhaol ac ystyrlon o bob rhan o sefydliadau'r sector cyhoeddus.

Tystiolaeth a chanlyniadau

82. Rydym yn croesawu'r pwysigrwydd a roddir ar dystiolaeth a chanlyniadau gan wasanaethau'r trydydd sector wrth sicrhau bod eu gwaith yn cael effaith gadarnhaol ac yn gwella bywydau teuluoedd. Mae Sharon Lovell yn credu bod y data'n dangos bod Project Unity yn gwneud gwahaniaeth sylfaenol i fywydau menywod ifanc a'u plant i'w hatal hwythau rhag mynd i mewn i'r system ofal, drwy ymyrraeth eiriolaeth ddwys i gynnal eu hawliau.⁵³ Nododd fod y prosiect wedi gweithio gyda 180 o fenywod ac nad yw 50 y cant o'r plant hynny wedi cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant.⁵⁴ Dywedodd fod y prosiect hefyd yn darparu gwerthusiadau o ba mor bell mae'r menywod wedi dod, gan nodi sut mae menywod ifanc yn teimlo, eu gwybodaeth am eu hawliau, y system gyfreithiol a'r prosesau y maent yn rhan ohonynt ar ddechrau ac ar ddiwedd eu hymyrraeth ac wedi cefnogi pobl ifanc i gymryd rhan yn ymchwil Dr Louise Roberts.

83. Yn yr un modd, gweithiodd y gwasanaeth partneriaeth Baby and Me gyda'r ymchwil 'Born into Care' gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield, gan yr Athro Karen Broadhurst a Claire Mason, a datblygu ystod o offer monitro sydd wedi eu helpu i gasglu dystiolaeth mewn meysydd fel llesiant. Mae'r ystadegau'n tynnu sylw at ostyngiad sylweddol yn faint o blant a rhieni a gaiff eu gwahanu adeg eu geni. Dywedodd Mark Carter bod dros 61 y cant o fabanod yr 80 o deuluoedd roedd yr Arsyllfa'n eu cefnogi hyd at ddiwedd y llynedd, wedi mynd adref.⁵⁵ Dywedodd hefyd fod partneriaeth Casnewydd, sy'n gyfrifol am y gwasanaeth, wedi gweld gwell perthynas gyda'r gweithwyr cymdeithasol, ... bod y cymorth ar gyfer lleoliadau i rieni a phlant, a lle maen nhw ar gael, hefyd yn cynyddu, a bod llai o amser ar y gofrestr amddiffyn plant.⁵⁶ Atgyfnerthwyd canlyniadau cadarnhaol

⁵¹ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2022, Paragraff 50](#)

⁵² [Gohebiaeth gan awdurdod lleol Bro Morgannwg, 6 Ebrill 2022](#)

⁵³ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 119](#)

⁵⁴ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 118](#)

⁵⁵ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 121](#)

⁵⁶ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 122](#)

y gwasanaeth gan Sally Jenkins, gan ddweud bod Baby and Me wedi arwain at ostyngiad o 48 y cant yn nifer y babanod newydd-anedig sy'n cael eu cymryd oddi ar eu rhiant/rhieni sy'n agored i niwed.⁵⁷

84. Clywsom am y broses fonitro fanwl ar gyfer gwasanaeth Casnewydd a gaiff ei hariannu a'i monitro gan yr awdurdod lleol, a chydabyddiaeth o'r angen i addasu yn ôl yr angen i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol. Pwysleisiodd Sally Jenkins hefyd werth gwasanaethau a gaiff eu datblygu'n lleol mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill fel iechyd ac addysg.

85. Mae tîm iechyd ac awdurdod lleol ar y cyd Jig-so, o fydwragedd a gweithwyr cymorth rhianta hefyd yn monitro canlyniadau gyda theuluoedd ifanc sy'n defnyddio dulliau i ganfod pa mor bell y maent wedi dod, gwerthusiadau, plant yn cau i wasanaethau cymdeithasol, plant yn dod oddi ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant yn cael eu cymryd i ffwrdd. Yn ystod 2021-2022, wedi'r pandemig, cafodd 15 o fabanod eu cymryd oddi ar deuluoedd oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth naill ai adeg eu genedigaeth neu ym mlwyddyn gyntaf eu bywydau. Dyma oedd y canlyniad i 7 o'u teuluoedd, gyda 93 y cant yn parhau i ofalu am eu babanod gyda chefnogaeth helaeth gan Jig-so.⁵⁸

86. Yn 2019 cwblhaodd Prifysgol Abertawe astudiaeth flwyddyn ar y prosiect a chyhoeddi ei hadroddiad **Archwilio arferion a phrofiadau ym mhrosiect teuluoedd ifanc aml-rhyngasiantaethol JIG-SO**. Mae'n tynnu sylw at effaith gadarnhaol ymyrraeth gynnar, cefnogaeth ddwys un i un a chefnogaeth grŵp a chymorth parhaus yn dilyn genedigaeth y plentyn. Mae'n tynnu sylw at y berthynas waith agos, gydweithredol ac arferion cydgysylltiedig rhwng y partneriaid aml-asiantaeth, gan alluogi lefel uchel o gyfathrebu i ddiwallu'r hyn sydd, yn aml, yn anghenion cymhleth sydd gan ddefnyddwyr y gwasanaethau.' Mae hefyd yn dweud bod y canfyddiadau'n dangos y rôl hanfodol y mae asiantaethau fel JIG-SO yn ei chwarae wrth gefnogi teuluoedd ifanc i fyw bywydau iachach, yn gorfforol ac yn gymdeithasol.⁵⁹

87. Mae dysgu o'r dystiolaeth, newid ac addasu i ddiwallu anghenion yn amlwg yn bwysig ac yn cael ei werthfawrogi. Cawsom ein calonogi o glywed bod gwasanaethau tebyg yn cael eu datblygu mewn ardaloedd eraill o'r wlad a bod cydweithio aml-asiantaeth yn greiddiol iddynt. Bydd deall mwy am daith a

⁵⁷ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 25 Ebrill 2022, paragraff 59](#)

⁵⁸ [Gohebiaeth gan brosiect Jig-so, Abertawe, Gorffennaf 2022](#)

⁵⁹ [Gohebiaeth gan brosiect Jig-so, Abertawe, Gorffennaf 2022](#)

chanlyniadau rhieni sydd wedi bod mewn gofal yn helpu i lywio'r gwaith o gynllunio a datblygu gwasanaethau yn y dyfodol.

6. Casgliadau

88. Mae wyth ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â gwasanaethau plant. Roeddem yn gwerthfawrogi clywed gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol am y rhaglen waith hon yn ystod ein hymchwiliad. Er bod y rhain i gyd yn bwysig a dylid craffu ymhellach ac yn drwyadl arnynt dros y blynyddoedd nesaf, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd sy'n arbennig o berthnasol i'n hymchwiliad.

89. Mae'r ymrwymiad i archwilio diwygiad radical i'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yng Nghymru yn cael ei groesawu ac mae'n gyfle i wella profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc. Amlinellodd y Dirprwy Weinidog y "weledigaeth a'r uchelgais newydd ar gyfer gwasanaethau plant, sy'n seiliedig ar arferion cyson, ymddygiadau sydd â llai o risg niweidiol a dulliau adfer cenedlaethol i'w mabwysiadu ledled Cymru,"⁶⁰ a sefydlu Bwrdd Goruchwylio i ddatblygu'r gwaith hwn, ynghyd ag ymgysylltu ag awdurdodau lleol a'r rhai sy'n gadael gofal.

90. Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i chlywed yn cefnogi'r angen am ddiwygio radical i sicrhau bod ein systemau a'n gwasanaethau'n dod yn fwy dynol - mae'n ymwneud â chanolbwyntio ar berthynas, ar sail cryfderau, bod yn gynhwysol a chanolbwyntio ar y person ifanc, ond mewn ffordd lle mae'r gweithwyr proffesiynol hynny'n ymgysylltu o gwmpas y person ifanc penodol mewn dull perthynol.⁶¹

91. Mae pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, a gwasanaethau, yn galw am i'r gwaith diwygio gynnwys cymorth i gael gafael ar rwydweithiau anffurfiol a chael cymorth i ddatblygu a meithrin perthnasoedd, a mynd i'r afael â'r materion ynysu y mae llawer yn eu hwynebu. Dylid ystyried gweithredu modelau sydd wedi hen ennill eu plwyf, fel cynadleddau grŵp teuluol a chyfarfodydd gydol oes. Dywedodd Barnardo's fod y rhain wedi bod yn hynod o lwyddiannus yn eu partneriaeth yng Nghasnewydd gydag 88 y cant o'r teuluoedd a gafodd gynhadledd grŵp teuluol cyn geni eu baban yn gallu mynd adref gyda'u baban wedyn a byw o fewn eu cymunedau.⁶² Mae hefyd wedi tynnu sylw at yr angen am gefnogaeth dosturiol i bob rhiant sy'n profi'r trawma o gael plentyn wedi'i gymryd oddi arnynt.

⁶⁰ [Cohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, 22 Gorffennaf 2022](#)

⁶¹ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 14.9](#)

⁶² [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 14.6](#)

92. Mae'r ymrwymiad a'r cytundeb i ariannu'r gwaith o ddarparu eiriolaeth ar gyfer rhieni i helpu i atal y teulu rhag chwalu o fis Ebrill 2022 yn gadarnhaol, ac yn cydnabod y cymorth sydd ei angen ar rieni y mae eu plant ar gyrion gofal. Mae'r pwyslais ar ddatblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth i Rieni, ac y bydd yn rhaid i'r rhanbarthau eu cyflawni, gan sicrhau darpariaeth gyson o wasanaethau ledled Cymru yn gam pwysig.⁶³ Eto, mae'r dystiolaeth yn dangos y gwahaniaeth cadarnhaol y gall eiriolaeth annibynnol ar gyfer rhieni ei wneud. Mae NYAS yn galw am i'r prosiect UNITY a phob eiriolaeth ar gyfer rhieni gael ei alinio yn y dyfodol.⁶⁴ Mae hefyd yn bwysig bod rhieni'n cael gwybod am y ddarpariaeth eiriolaeth yn ystod eu cysylltiadau cychwynnol gyda gwasanaethau.

93. Mae cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel rhiant corfforaethol yn llinyn sy'n plethu drwy'r holl dystiolaeth. Mae pawb wnaeth gyfrannu at yr ymchwiliad hwn yn galw am newidiadau ac i'r newidiadau hynny ddigwydd yn gyflym. Er ei bod yn galonogol y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu cod statudol ar gyfer rhianta corfforaethol yn 2024, rhaid i hyn adlewyrchu'r siarter a ddatblygwyd gan CASCADE, pobl ifanc a phartneriaid, ar sail tystiolaeth ac ymchwil. Mae hwn yn fan cychwyn sylfaenol er mwyn dechrau mynd i'r afael o ddifrif â'r profiadau negyddol y mae pobl ifanc yn eu hwynebu, a darparu lefel o gymorth sy'n debycach i'r hyn y byddai rhiant da yn ei ddarparu. Mae'n amlwg na ddylai hyn orffwys gyda gwasanaethau plant yn unig, gan na allant ddarparu'r cymorth sydd ei angen heb ymrwymiad llawn y gwasanaethau tai, iechyd, addysg ac eraill. Byddai ymestyn dyletswyddau rhianta corfforaethol hyd at 25 oed yn gam arall i'r cyfeiriad cywir yn ôl darparwyr eiriolaeth, gan y byddai llawer o rieni dros 21 oed sydd wedi bod mewn gofal yn elwa o gymorth ychwanegol.

94. Er bod y rhain yn newidiadau uchelgeisiol rhaid i ni sicrhau bod plant, pobl ifanc a rhieni sydd wedi bod mewn gofal, yn rhan o'r gwaith o lunio a datblygu dulliau a gwasanaethau newydd, a bod eu profiadau a'u safbwyntiau yn cael eu rhoi wrth wraidd y diwygiadau.

95. Dyma gyfle i newid y system, i newid y diwylliant ac i wella bywydau teuluoedd sydd wedi bod mewn gofal.

⁶³ [Cohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, 22 Gorffennaf 2022](#)

⁶⁴ [Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 21 Mawrth 2022, paragraff 130](#)

Atodiad 1: Ymgysylltu gyda rhieni sydd wedi bod mewn gofal

Senedd Cymru

Ymgysylltu â dinasyddion

Crynodeb o Waith Ymgysylltu Rhieni sydd wedi bod mewn gofal

1. Y cefndir

1. Ym mis Mawrth 2022, penderfynodd y Pwyllgor Deisebau gynnal ymchwiliad yn gysylltiedig â'r ddeiseb isod:

Rhif y ddeiseb: P-06-1161

Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

2. Penderfynwyd, er mwyn cael darlun manwl o'r sefyllfa barhaus o ran rhieni sydd wedi bod mewn gofal, ei bod yn amlwg bod angen clywed gan bobl sydd â phrofiad byw. Cynigiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddull ansoddol o ymgysylltu.

2. Cyfranogwyr

3. Rhwng 1 Ebrill a 30 Ebrill 2022, gweithiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyda 24 rhiant ledled Cymru sydd wedi bod mewn gofal, a oedd yn cynnwys 20 menyw a 4 dyn
4. Hwylusodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion bedwar grŵp ffocws wyneb yn wyneb â rhieni ledled Cymru sydd wedi bod mewn gofal. Cynhaliwyd dau o'r rhain yn y De a chynhaliwyd dau yn y Gogledd, gyda'r cyfranogwyr a oedd yn cymryd rhan wedi'u lleoli ar draws y rhanbarthau.
5. Cysylltwyd â'r cyfranogwyr drwy sgysiau â NYAS Cymru (y Gwasanaeth Eiriolaeth Cenedlaethol i Bobl Ifanc) a Voices from Care Cymru.

6. Amcan yr ymgysylltu oedd casglu barn a phrofiadau rhieni sydd wedi bod mewn gofal.

3. Methodoleg

7. Roedd fformat y gwaith ymgysylltu yn debyg i raddau helaeth rhwng sesiynau, ond cafodd ei amrywio ychydig i ddiwallu anghenion cyfranogwyr.

8. Prif nodau'r grwpiau ffocws oedd:

- Deall rhagor am brofiadau pobl ifanc o gael plentyn tra mewn gofal eu hunain neu fel rhywun sydd wedi gadael gofal
- Gwybod a yw'r cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn cael cefnogaeth ymarferol ac emosiynol o ansawdd da.
- Deall pa wasanaethau a chymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol, y trydydd sector neu eraill ac a ydynt yn diwallu anghenion pobl ifanc ac anghenion eu plant.

9. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r cyfranogwyr er mwyn dechrau trafodaeth a chael manylion:

- Beth hoffech chi ei ddweud wrthym am eich profiad o fod yn rhiant sydd wedi bod mewn gofal?
- Pan oeddech chi'n feichiog, oeddech chi'n meddwl bod gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau yn eich trin yn wahanol oherwydd eich bod wedi bod mewn gofal?
- Pa gymorth a chefnogaeth a gawsoch chi gan y gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill i'ch paratoi i fod yn rhiant?
- Pa gymorth a chefnogaeth gawsoch chi ar ôl i'ch babi gael ei eni?
- Beth yw'r prif bethau a fyddai wedi'ch helpu chi fwy neu yr hoffech chi fod wedi eu gweld yn cael eu gwneud yn wahanol?
- A allwch chi ddweud wrthym am rai o'r anawsterau ymarferol ac emosiynol ychwanegol y mae rhieni sydd wedi bod mewn gofal yn eu hwynebu?

10. Mae nodiadau o bob sesiwn ar gael ar gais.

4. Themâu allweddol sy'n codi:

11. Er mai agwedd bersonol oedd i hanes pob unigolyn, daeth rhai themâu cyffredinol clir i'r amlwg yn ystod y trafodaethau hyn:

Stigma

12. Ym mhob un o'r grwpiau ffocws, roedd yn amlwg bod rhieni sydd wedi bod mewn gofal yn teimlo eu bod yn wynebu lefel uchel o stigma oherwydd eu profiadau yn y gorffennol. Arweiniodd hyn at rwystredigaethau gan y cyfranogwyr oedd yn teimlo bod y stigma hwn wedi arwain at brofiad gwael wrth iddyn nhw ddod yn rhieni eu hunain.

'Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn awgrymu ein bod ni'n ddim ond slobs, doedd y gefnogaeth jyst ddim yna, a mae jyst teimlad o stigma yn syth'

"Mae stigma ynglŷn â'r rhai sy'n gadael gofal sy'n effeithio arnoch chi mewn cymaint o wahanol ffyrdd - dewis gyrfa/addysg, mae'r rhestr yn mynd ymlaen. Roedd y diffyg cefnogaeth a'r berniadau a gefais yn erchyll'

"Roedd gen i botel o win yn y gegin ar ôl y Nadolig. Daeth y gweithiwr cymdeithasol o hyd iddi a'i dywallt i lawr y sinc a dweud 'os wyt ti'n cario 'mlaen, byddi fel dy fam - doeddwn i ddim hyd yn oed wedi ei hagar. Roedden nhw'n cymryd yn ganiataol mod i'n yfwr pan 'doeddwn i ddim, oherwydd bod fy mam yn yfed.

13. Roedd yna hefyd lefel uchel o ddiecter nad oedd y stigma sy'n gysylltiedig â rhieni sydd wedi bod mewn gofal wedi newid dros y blynyddoedd gyda nifer o gyfranogwyr yn pryderu am yr effaith y gallai hyn ei chael ar eu plant yn y pen draw.

'Mae'r stigma yma wedi bod yma ers blynyddoedd - pryd fydd o'n newid? A fydd yr un peth i'n plant?!? Mae'n teimlo fel na fydd byth yn stopio. Pam rydyn ni'n dal i ymladd i'r lleisiau hyn gael eu clywed?

14. Roedd y mwyafrif o rwystredigaethau ynghylch stigma wedi'u cyfeirio tuag at y gwasanaethau cymdeithasol, ac roedd hefyd sawl pryder yn cael eu codi ynghylch y driniaeth a gafodd nifer o gyfranogwyr gan y GIG.

'Cefais fy nhrin yn ofnadwy yn yr ysbyty. Ro'n i'n teimlo fwy fel troseddwr na mam newydd, a bod yn onest, ro'n i'n amlwg yn cael fy marnu'

'Roedd y bydwagedd yn hyfryd ar y cyfan ond ry'ch chi jest yn teimlo eich bod chi'n cael eich barnu ganddyn nhw, er nad ydyn nhw'n gwybod y sefyllfa gan fod popeth yn gyfrinachol'

"Rydych chi wedi'ch condemnio o'r dechrau, y funud maen nhw'n gwybod eich bod chi wedi bod mewn gofal, rhaid i chi frwydro'n galed. Dim ond ein trin ni fel pobl, rydych chi mewn ysbyty, ac mae'ch plentyn yn cael ei gymryd oddi arnoch chi, yn cael eich trin â dim parch oherwydd y rhagdybiaethau hynny.'

Gwasanaethau cymdeithasol

15. Thema allweddol gyffredinol arall a ddaeth i'r amlwg o'r grwpiau ffocws oedd y berthynas negyddol y soniodd rhieni ifanc amdani gyda'r gwasanaethau cymdeithasol.
16. Er bod ambell i enghraifft o straeon positif yn dod i'r amlwg gyda gweithwyr cymdeithasol unigol, y teimlad ymhlith y mwyafrif o'r cyfranogwyr oedd bod problemau dyfnach o fewn y gwasanaethau cymdeithasol a oedd angen mynd i'r afael â nhw.

Dydyn nhw ddim bob amser yn onest gyda'r hyn maen nhw'n ei ddweud... maen nhw'n dweud wrthyf i fod yn onest ac yn agored, ond wedyn ar y droed arall maen nhw'n defnyddio popeth ac unrhyw beth ti'n ei ddweud yn dy erbyn di'

"Gweithwyr cymdeithasol yw'r rhai sydd jyst ddim yn ein helpu ni, maen nhw'n troi fyny'n ddirybudd ar ddyddiau sydd ddim yn gyfleus drwy'r amser, wedyn maen nhw'n meddwl pam dwi'n ypsetio a mae hynny'n negyddol i fi yn y diwedd, yn tydi? Mae'n gwneud i mi edrych fel nad ydw i'n addas i bwrpas. Maen nhw'n ei wneud o'n fwriadol'

'Mae rhai gweithwyr cymdeithasol yn iawn, ond maen nhw jyst yn cymryd clod am stwff dydyn nhw ddim yn ymwneud â nhw'

17. Ar sawl achlysur, roedd cyfranogwyr yn aml yn teimlo, wrth ryngweithio â'r gwasanaethau cymdeithasol, eu bod yn cael eu barn a bod eu sylwadau'n aml yn cael eu camddehongli.

"Roedden nhw'n cwestiynu fy mod i'n rhoi fy merch mewn dillad oedd ar gyfer merched iau, ond mae hi'n fach iawn am ei hoed ac roedden nhw'n dal i'w godi fel rhywbeth negyddol. Os wyt ti'n rhiant byddet ti'n gwybod hynny ond roedd hi'n dal i bigo arna i am bethau mor fach'.

"Ddywedon nhw wrthon ni nad oedd y tŷ yn daclus, felly y tro nesaf fe wnes i'n siŵr bod yr holl deganau wedi'u clirio... beth ddwedon nhw? O ble mae'r teganau i gyd... dyna oedd y broblem nesa'

18. Maes arall a gododd ar draws sawl grŵp ffocws oedd gofal maeth. Gwnaeth sawl unigolyn sylwadau ar brofiadau negyddol a gawsant ac maent yn dal i'w cael gyda gofalwyr maeth, gyda nifer yn rhannu eu barn nad oedd y system gofal maeth a gwasanaethau cymdeithasol yn addas i'w diben.

"Mae'r gofalwr maeth yn cael gwneud fel y mynnon nhw. Fe wnes i ganfod eu bod yn ceisio fy ngwneud i'n ddig yn fwriadol fel eu bod nhw'n gallu dweud 'wel fe gollodd ei thymmer - mae ganddi broblemau hefo'i thymmer'

"Mae angen ail-hyfforddi gofal cymdeithasol. Maen nhw'n esgeuluso plant sydd angen help ac mae fel eu bod nhw'n targedu plant sydd ddim ei angen. Mae 'na deimlad o ragfarn fawr tuag at blant mewn gofal. Dwi'n teimlo bod llawer ohonyn nhw'n byw ar y pŵer, dwi wedi dod ar draws sawl un yn y system a hefyd mewn gofal maeth... dylid ei dileu!'

Trawma Emosiynol

19. Roedd yn amlwg ar draws yr holl grwpiau ffocws, bod profiadau'r cyfranogwyr yn y gorffennol wedi arwain at straen emosiynol arnyn nhw a'u plant. Rhannodd llawer o'r cyfranogwyr straenon personol iawn am y trawma.

"Mae'n ofnadwy – jyst yn ofnadwy. Mae'n uffernol gweld dy blentyn yn cael ei gymryd oddi wrthot ti, mae'n gwneud i mi deimlo'n sâl nawr yn meddwl am y peth, mae jyst yn trawmatig'.

"Pan gafodd y plant eu cymryd oddi arnaf, gwnaeth fy nhorri, dinistrio'n bywydau. Roedd yn 14 wythnos cyn i fi weld fy mab eto a fy merch 14 mis - wnaethon ni ddim eu gweld o gwbl dros y cyfnod clo ac felly dim ond ar gamera oedden ni'n gallu eu gweld - a chamera gwael oedd hwnnw'.

20. Gwnaeth nifer o'r cyfranogwyr sylwadau am yr effaith negyddol a gafodd y profiadau hyn ar eu hiechyd meddwl gwael a goblygiadau pellach hynny.

'Yn y pen draw - Materion byw a marw yw'r rhain rydyn ni'n delio â nhw - mae'n gallu ac wedi gwthio pobl ifanc i hunanladdiad'

'Mae'r straen yn ychwanegu at eich iechyd meddwl yntydi - mae'n bwysau ychwanegol ar adeg pan nad oes ei angen arnoch chi, mae dod yn rhiant yn gyfnod digon anodd fel y mae'

"Mae fy iechyd meddwl wedi cael ei guro, sut mae disgwyl i chi ddelio â'r cyfan? Dwi'n nabod pobl sydd heb lwyddo ac sydd mewn lle ofnadwy. Dwi'n teimlo'n lwcus mewn ffordd y gwnes i lwyddo i gadw'n gymharol at fy nghoed, ond mae'r broses o ailadeiladu eich hun yn cymryd amser ac mae angen cymorth arnoch chi'

Cymorth

21. Gwnaeth yr holl gyfranogwyr sylwadau am y cymorth amhrisiadwy a roddwyd iddynt gan sefydliadau'r trydydd sector, gyda llawer hefyd yn nodi sut roedd y gwasanaethau cymdeithasol weithiau'n teimlo o dan fygythiad oherwydd y cymorth hwn.

'Weithiau, mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn meddwl ein bod yn mynd at y trydydd sector dim ond er mwyn herio a chwyno, ond rydyn ni'n mynd yno i cael cymorth'

"Rwy'n cael fy meirniadu am fy mhrofiadau yn y gorffennol drwy'r amser, rydych chi'n teimlo eu bod nhw'n eich barnu o hyd a'u bod heb gael eu sefydlu i'ch helpu chi. Mae Voices wedi fy nghefnogi ers 3 neu 4 blynedd nawr, ac wedi fy helpu i ddatblygu fy rhwydwaith ehangach hefyd'.

'Dwi'n teimlo os nad oedd Voices gen i – duw a wŷr lle fyddwn i'

22. Yn ogystal ag ategu cefnogaeth emosiynol sefydliadau'r trydydd sector, nodwyd mewn sawl achos sut yr oeddent yn darparu cefnogaeth ymarferol amhrisiadwy i rieni ifanc.

"Mae gen i weithiwr o Barnardo's sy'n gofalu amdanaf i nawr, a nhw oedd y person ddywedodd wrtha i yn y pen draw nad oedd y gwasanaethau cymdeithasol yn ymdrin â fy achos i nawr. Roedd Barnardo's yn wych o ran rhoi cymorth y person cyfan i mi'

Mae NYAS wedi bod yn wych i mi. Rydych chi'n teimlo nad oes digon o gefnogaeth gyda phethau eraill, cyfrifon banc ac ati a bod cymorth ymarferol yn hollbwysig. Sut rydych chi'n talu biliau? Sut rydych chi'n trin arian? Sut rydych chi'n mynd ar ôl pobl â thai? Mae'r gefnogaeth honno'n gwneud gwahaniaeth enfawr.

5. Awgrymiadau ar gyfer Gwella

23. Awgrymodd y cyfranogwyr ychydig o welliannau yr oedden nhw'n credu oedd angen eu gwneud i wella eu profiadau. Roedd y rhain yn cynnwys:

[Mwy o gymorth emosiynol:](#)

24. Nododd sawl un a gymerodd ran sut yr oedd gwir angen am gefnogaeth fwy emosiynol a bod angen clustnodi arian i flaenoriaethu'r maes hwn.

'Peidiwch ag edrych arnon ni dim ond fel plant sydd wedi bod mewn gofal, dim ond oherwydd bod cenedlaethau blaenorol wedi cael problemau, dyw hynny ddim yn golygu y byddwn ni. Rhowch arian tuag at y gefnogaeth gywir'

'Mae angen mwy o gefnogaeth sy'n gwneud gwahaniaeth, mae angen i ni gael pobl i'n helpu ni i beidio ein barnu ni, mae angen iddyn nhw ein gweld ni fel pobl go iawn'

Atal:

25. Roedd atal yn faes gwelliant arall y cyfeiriodd sawl un o'r cyfranogwyr ato, gyda sawl un yn pwysleisio'r angen i wneud pethau'n iawn ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

'Fydd dim byd yn cael ei drwsio i ni, dwi'n deall hynny - ond mae atal ar gyfer y genhedlaeth nesaf yn hollbwysig'

'Y ffordd orau o atal hynny yw ymyriadau seicolegol cynnar i blant sy'n mynd i ofal, felly dyw e ddim wedi cael ei ddefnyddio fel esgus nes ymlaen'

Mae'n rhaid i'r cyfathrebu rhwng asiantaethau fod yn llawer gwell hefyd. Mae amseroedd aros yn cael eu hymestyn oherwydd bod y cyfathrebu'n wael, a phan maen nhw'n cyfathrebu mae pethau hanfodol yn cael eu gadael allan. Mae atal yn hollbwysig'

Newid i'r system Gofal Cymdeithasol:

26. Thema gyson a oedd yn dod i'r amlwg oedd yr angen am newid sylfaenol i'r system gofal cymdeithasol. Roedd llawer yn teimlo bod y system wedi bod yn fethiant iddynt ac roedd gan sawl un o'r cyfranogwyr farn gryf o ran y newidiadau oedd eu hangen.

"Mae angen ail-hyfforddi gofal cymdeithasol. Maen nhw'n esgeuluso plant sydd angen help ac mae fel eu bod nhw'n targedu plant sydd ddim ei angen. Mae 'na deimlad o ragfarn fawr tuag at blant mewn gofal. Dwi'n teimlo bod llawer ohonyn nhw'n byw ar y pŵer, dwi wedi dod ar draws sawl un yn y system.' MAE ANGEN EI DILEU!

"Edrychwch ar y modelau magu plant mae pobl yn ei gael mewn gofal maeth. Rydyn ni i gyd wedi siarad am sut y cawsom wybod nad oedd gennym 'fodelau priodol o fagu plant', ond dyna holl bwynt gofal maeth. Os mai dyna'u hesgus yna mae angen iddyn nhw drwsio'r system gofal maeth'

Atodiad 2: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
21 Mawrth 2022	Dr Louise Roberts, Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) Jennifer Molloy, Rhiant sydd wedi bod mewn gofal Mark Carter, Barnardo's Cymru De-ddwyrain Cymru Liz Baker, Barnardo's Cymru Caerdydd a'r Fro Sharon Lovell, Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol (NYAS) Daljit Kaur Morris, Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol (NYAS)
25 Ebrill 2022	Sally Jenkins, Cyngor Dinas Casnewydd Annabel Lloyd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Julie Davies, Dinas a Sir Abertawe Deborah Jones, Voices From Care Cymru Francesca Pritchard, Voices from Care Cymru
13 Mehefin 2022	Julie Morgan AS, Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr, Galluogi Pobl, Llywodraeth Cymru

Atodiad 3: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl wybodaeth ysgrifenedig i'w gweld ar wefan y Pwyllgor.

Teitl	Dyddiad
Llythyr at y Cadeirydd gan Gomisiynydd Plant Cymru	3 Medi 2021
Llythyr at y Cadeirydd gan Gyngor Bro Morgannwg	6 Ebrill 2022
Llythyr at y Cadeirydd gan Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol	26 Ebrill 2022
Llythyr at y Cadeirydd gan Voices from Care Cymru	13 Mai 2022
Llythyr gan ADSS Cymru	18 Mai 2022
Llythyr at y Cadeirydd gan Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol	22 Gorffennaf 2022
Llythyr at y Cadeirydd gan Jig-so	25 Gorffennaf 2022